

Dylai pob eiddo ddefnyddio'r cynwysyddion a ganlyn:



Bin du yn unig ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu



Gallwch gael hynny o gynwysyddion ailgylchu sydd ei angen, sef:



Blwch glas - poteli a jariau gwydr



Bag arian - caniau a thuniau, poteli a thybiau plastig, cartonau cwyr



Bag glas - cardfwrdd, papur, papurau newydd, amlenni



Cadi gwastraff bwyd bach llwyd ar gyfer casglu a chadw gwastraff yn y cartref



Cadi gwastraff bwyd mawr gwyrdd (cadi awyr agored) ar gyfer casgliadau myml palmant



Sachau cadi gwastraff bwyd y gellir eu compostio*



*Rhaid i chi ddefnyddio'r sachau y mae modd eu compostio sydd wedi'u dylunio'n arbennig ar gyfer y cadi gwastraff bwyd bach; peidiwch â defnyddio bagiau plastig nac unrhyw fagiau eraill na ellir eu compostio na bagiau bioddiraddadwy.

Pan fydd eich cadi bwyd llwyd yn llawn, tynnwch y sach, ei glymu'n ddiogel a'i roi yn y cadi gwyrdd mawr, ac yna ei roi ar ymyl y palmant iddo gael ei gasglu. Mae handlen sy'n cloi ar y cadi hwn ac mae'n hanfodol ei defnyddio i glo'r cynhwysydd rhag denu llygod mawr. Os byddwch yn defnyddio'r bagiau i gyd, gallwch glymu un ar yr handlen ar ddiwrnod casglu a bydd ein timau'n dod a set arall i chi.



Gellir casglu **batri**s o'ch cartref hefyd, rhowch nhw allan gyda'ch ailgylchu wythnosol mewn bag clir neu dwb neu gynhwysydd y mae modd ei ailgylchu sydd i'w weld yn glir i'r criw casglu.



Mae'r cynwysyddion hyn ar gael ar gais:



Bocs oren ar gyfer clytiau a chynnyrch hylendid amsugol. I gofrestru, ewch i <https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Bins-Recycling-and-Waste/Nappy-Absorbent-Hygiene-Products-Collection.aspx> neu ffoniwch 01352 701234.



Sylwer nad gwasanaeth casglu deunydd clinigol yw hwn, mae gennym gasgliad ar wahân ar gyfer hynny.



Bin brown ar gyfer gwastraff gardd. I wneud cais ac i dalu, ewch i: <https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Bins-Recycling-and-Waste/Garden-Waste-Collection-Service.aspx> neu ffoniwch 01352 701234. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael o 1 Mawrth i ganol mis Rhagfyr.



Yn y dyfodol, os bydd arnoch angen cynhwysyddion ailgylchu neu sachau y mae modd eu compostio, gwnewch gais ar-lein neu ewch i'ch Swyddfa Sir y Fflint yn Cysylltu leol neu'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref agosaf.

I gael mwy o wybodaeth am reoli eich gwastraff ac ailgylchu ewch i <https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Bins-Recycling-and-Waste/Home.aspx>

Sylwer na fydd gwastraff ailgylchu wedi'i halogi yn cael ei gasglu. Mae gwrebodaeth am yr hyn y gellir ei ailgylchu neu beidio ar gael yn <https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Bins-Recycling-and-Waste/What-can-and-cannot-be-recycled.aspx>

i'ch atgoffa beth yw gwastraff dros ben

Mae angen cau caeadau biniau du yn dynn. Gwastraff dros ben yw gwastraff sy'n cael ei gyflwyno ar ymyl palmant ac sy'n fwy na chynnwys y bin neu nad yw yn y cynhwysydd cywir a ddarparwyd. Enghreifftiau:



Sachau ychwanegol a roddir wrth ochr y bin bu.



Sachau ychwanegol a roddir ar dop y bin ble nad yw'r sach yn ffitio y tu mewn i dop y bin.



Gwastraff sy'n fwy na chynnwys y bin sy'n achosi i'r caead agor.



Eiddo sydd ag ail fin du. Er eu bod yn y cynhwysydd cywir, dim ond un bin du all bob eiddo ei gael.

